Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Ddydd Sêr Bach / Little Stars Day Nursery**

**Canolfan Gymunedol Owain Glyndŵr**
**Llwyn Helyg**
**Castell-nedd**
**SA10 7BZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

Adroddiad terfynol heb ei



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

07/11/2019

# Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Ddydd Sêr Bach yn darparu gofal dydd llawn ar gyfer hyd at 19 o blant. Mae'n gweithredu o Ganolfan Owain Glyndŵr yn Waunceirch, Castell-nedd ac mae ar agor ar ddydd Mawrth a dydd Iau rhwng 9 am a 3 pm ac ar ddydd Mercher rhwng 9am a 12pm. Jacqueline Rice yw'r person cofrestredig a Danielle Rouse yw'r person â chyfrifoldeb. Cymraeg yw prif iaith y gofal

## Crynodeb

| Thema | Gradd |
|---|---|
| Llesiant | Da |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Digonol |
| Arwain a Rheoli | Digonol |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**1. Asesiad cyffredinol**

Mae'r plant sy'n mynychu Meithrinfa Ddydd Sêr Bach yn hapus ac yn mwynhau eu profiadau dysgu. Maent yn cael gofal gan dîm o staff gwybodus a gofalgar sy'n ymrwymedig i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r plant yn hapus ac yn amlwg yn mwynhau eu hamser yma. Mae'r rhieni'n hapus â chynnydd eu plant a'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Mae angen gwneud gwelliannau er mwyn sicrhau bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn effeithiol.

**2. Gwelliannau**

Mae'r gwasanaeth wedi cofrestru ar gyfer cynllun i hybu hyder y staff i siarad Cymraeg gyda'i gilydd a gyda'r plant.

**3. Gofynion ac argymhellion**

Rydym wedi hysbysu'r person cofrestredig bod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas ag addasrwydd gweithwyr (rheoliad 28) a chyflogi staff (rheoliad 29) er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol yn llawn. Nid oes hysbysiad wedi'i gyflwyno y tro hwn, gan nad oedd unrhyw effaith uniongyrchol na sylweddol ar y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn disgwyl i'r person cofrestredig gymryd camau i unioni hyn ac edrychir ar y mater eto yn yr arolygiad nesaf.

Rydym wedi gwneud argymhellion mewn perthynas â'r amgylchedd ac arwain a rheoli. Mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant Da

**Crynodeb**

Mae llesiant y plant yn dda, am fod gan y plant lais cryf ac y cânt gyfleoedd i gyfrannu at y gwasanaeth. Maent yn dewis sut ac ym mha ardal i dreulio eu hamser, ac yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau sy'n ddiddorol ac yn hwyl. Mae'r plant yn rhyngweithio ag eraill yn gadarnhaol, ac maent yn gwneud cynnydd da ac yn dod yn fwy annibynnol.

**Ein canfyddiadau**

Mae gan y plant lais cryf am eu bod yn dewis sut a lle i dreulio eu hamser. Roedd y plant yn symud yn rhydd rhwng y gweithgareddau a oedd wedi'u gosod ar eu cyfer dan do. Maent yn mynegi eu hunain ac yn siarad yn hyderus. Dewisodd y plant a oedd yn gymharol newydd i'r gwasanaeth beidio â chymryd rhan yn ystod amser cylch a gadawodd y staff iddynt chwarae ar wahân. Eisteddodd y rhan fwyaf o'r plant mewn cylch ar gyfer amser stori a chân. Roedd y plant yn gallu dewis pwy roeddent am eistedd wrth ei ymyl yn ystod amser byrbryd ac amser cinio. Gofynnwyd i un plentyn wisgo ei ffedog pan oedd yn paentio, ond gwrthododd wneud hynny. Esboniodd y staff wrtho y gallai drochi ei ddillad. Cytunodd i'w gwisgo ar ôl hynny.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae bron pob un o'r plant yn gartrefol ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni gan eu bod yn gyfarwydd â'u hamgylchedd a'r arferion dyddiol. Roedd bron pob plentyn yn sgwrsio'n rhwydd ag eraill. Roedd rhai o'r plant iau yn ansicr iawn ohonom, gan aros yn agos at y staff a oedd yn gyfarwydd iddynt. Gwnaeth y plant hŷn sgwrsio â ni a'n cynnwys yn eu chwarae, gan roi doli i ni i'w magu nes ei bod yn cysgu. Roedd pob plentyn yn archwilio'r ystafell yn hyderus, a oedd yn dangos eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd ac yng nghwmni'r staff.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol y rhan fwyaf o'r amser. Roedd rhai yn aros yn amyneddgar i'w byrbrydau gael eu paratoi, ond roedd eraill yn llai amyneddgar ac yn curo ar y bwrdd. Mae'r plant yn dechrau deall sut i rannu a chyd-chwarae. Yn ystod sesiwn ddawnsio, gwnaeth rhai o'r plant aros ar yr ochr yn bryderus tra oedd rhai o'r plant yn rhedeg o amgylch yn gyflym gan daro yn erbyn plant eraill. Roedd rhaid atgoffa rhai o'r plant i beidio â thaflu teganau at ei gilydd.

Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn llawn cymhelliant ac yn ymddiddori yn eu chwarae. Gwnaeth y plant fwynhau gweithgareddau paentio ac roedd eraill yn treulio amser rhesymol yn cwblhau posau. Roedd rhai o'r plant yn chwerthin ac yn dilyn cyfarwyddiadau symud i'r gerddoriaeth yn ystod sesiwn dawnsio a symud. Gwnaeth y plant fwynhau chwarae rôl yn y tŷ chwarae gan lapio doliau mewn blancedi a'u magu nes eu bod yn cysgu.

Ar y cyfan, mae'r plant yn gwneud cynnydd da gan eu bod yn cael budd o gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau, ac maent yn dod yn fwy annibynnol.

Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu datblygiad corfforol drwy ddawns a cherddoriaeth. Roedd y plant yn dangos eu bod yn gallu cyflawni tasgau eu hunain wrth iddynt ddefnyddio'r toiled a golchi eu dwylo yn annibynnol. Gwnaeth y plant sychu eu hwynebau eu hunain ar ôl cinio a thaflu'r clytiau yn y bin.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 2. Gofal a Datblygiad Da

### Crynodeb

Mae'r staff yn llwyddo i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn awyrgylch gofalgar. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n gyson ac maent yn fodelau rôl da, gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Mae'r staff yn hybu dysgu'r plant drwy chwarae yn effeithiol, gan ddarparu gweithgareddau ysgogol a diwallu anghenion unigol y plant.

### Ein canfyddiadau

Mae'r staff yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyson. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac yn gwybod â phwy i gysylltu yn yr asiantaethau perthnasol os oedd ganddynt bryderon. Roedd gan ddau aelod o'r staff gymwysterau cymorth cyntaf cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos eu bod wedi ymdrin â digwyddiadau'n briodol. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn mwynhau gweithgareddau corfforol rheolaidd, ond roedd y rhain dan do yn bennaf. Roedd y staff yn sicrhau bod y byrddau yn cael eu glanhau cyn amser byrbryd ac amser cinio ac roedd y plant yn golchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl mynd i'r toiled. Roedd cofnodion ymarferion tân rheolaidd yn dangos bod y staff a'r plant yn gwybod sut i adael y safle'n ddiogel.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'r plant yn gyson ac yn gadarnhaol, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol. Roeddent yn eistedd gyda'r plant yn ystod prydau bwyd, gan sgwrsio a chynnig help pan fo angen. Roedd y staff yn achub ar bob cyfle i ganmol y plant am fod yn garedig, neu am wneud tasg nad oeddent wedi llwyddo i'w gwneud o'r blaen. Roedd y staff yn gyson ac yn atgoffa'r plant i fod yn garedig pan oeddent yn gweld ymddygiad negyddol. Roedd y staff yn dathlu cyflawniadau'r plant drwy eu cofleidio a churo dwylo.

Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol yn effeithiol gan eu bod yn adnabod y plant yn dda. Roeddent yn darparu awyrgylch gofalgar a oedd yn meithrin y plant, ac yn rhoi gofal ymatebol am eu bod yn gwybod manylion am y plant a rannwyd gan y rhieni ar lafar ac ar ffurflenni cofrestru, ac yn gweithredu arnynt. Er enghraifft, roedd y staff yn gallu dweud wrthym am y plant nad oeddent am fod yn rhan o grŵp mawr. Roedd y staff yn hybu datblygiad pob plentyn drwy ddarparu profiadau chwarae a dysgu da. Roeddent yn hyrwyddo'r Gymraeg yn effeithiol gan fod y plant yn deall yr hyn a oedd yn cael ei ddweud ac yn ymateb yn Gymraeg.

## 3. Yr Amgylchedd Digonol

**Crynodeb**

Mae'r amgylchedd yn fawr, yn olau ac yn ddiogel. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda. Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd glân a diogel, ac mae asesiadau risg yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Nid oes unrhyw ardal chwarae awyr agored ddynodedig.

**Ein canfyddiadau**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac maent yn goruchwylio'r plant yn dda. Roedd y brif fynedfa yn aros dan glo ac roedd y staff yn rhoi mynediad i ymwelwyr ac yn gofyn iddynt lofnodi'r cofnodlyfr ymwelwyr. Roedd y staff yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael eu hunain a rhai'r plant yn ddyddiol. Nid oedd unrhyw beryglon mewn unrhyw ardaloedd dan do nac yn yr awyr agored, ac roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau gan yr arweinwyr yn llwyddiannus. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi, a gwelsom dystysgrif diogelwch gyfredol y system wresogi a thystiolaeth bod yr holl eitemau trydanol wedi cael prawf PAT.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr yn darparu amgylchedd golau a mawr i'r plant. Roedd yr ardaloedd chwarae a dysgu wedi'u gosod ar lefel taldra'r plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd. Dan do, roedd y plant yn defnyddio cadeiriau, byrddau a dodrefn sy'n addas i'w maint. Roedd pwyllgor y neuadd yn cyfyngu ar allu'r arweinwyr i arddangos gwaith y plant ar y waliau. Roedd yr arweinwyr yn defnyddio rhanwyr cardfwrdd isel i wahanu ardaloedd dysgu ac roeddent yn arddangos gwaith y plant arnynt. Nid oedd gan y plant fynediad rhydd i'r ardal awyr agored ac roedd teithiau cerdded ac ymweliadau yn yr awyr agored yn cael eu trefnu ymlaen llaw.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod y plant yn mwynhau ystod o adnoddau chwarae a dysgu da ac ysgogol. Roedd digonedd o weithgareddau a theganau ar gael er mwyn sicrhau bod gan y plant ddewis diddorol. Roedd yr holl deganau a'r gemau'n lân ac mewn cyflwr da. Cafodd adnoddau eu storio mewn cwpwrdd mawr ac roedd y staff yn dewis rhywbeth gwahanol o'r cwpwrdd bob dydd. Hefyd, roedd y cyfarpar a'r dodrefn yn addas ar gyfer oedrannau'r plant sy'n mynychu'r feithrinfa.

## 4. Arwain a Rheoli **Digonol**

### Crynodeb

Mae arweinyddiaeth yn ddigonol ac mae angen gwneud gwelliannau. Mae polisïau a gweithdrefnau ar gael ac yn cael eu hadolygu'n gyson. Nid yw'r broses o recriwtio staff yn gadarn ac nid yw gwiriadau hanfodol yn cael eu cwblhau bob amser. Nid yw'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn effeithiol ac nid yw cyfarfodydd arfarnu na sesiynau goruchwylio'r staff yn cael eu cynnal. Mae partneriaethau â'r rhieni a'r gymuned leol yn effeithiol ac yn gweithio er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth sylfaenol ar gyfer y gwasanaeth, ac maent yn ei rhannu ag eraill. Cawsom ddatganiad o ddiben cyfredol yn dilyn ein harolygiad ac mae'n adlewyrchiad gwir a chywir o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Mae'r arweinwyr yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o reoliadau, ac yn meddu ar wybodaeth ddigonol am eu cyfrifoldebau. Mae gan y person â chyfrifoldeb ddealltwriaeth o'r arfer gorau cyfredol sy'n berthnasol i'r plant yn eu gofal.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr wrthi'n cwblhau adolygiad cyfredol o ansawdd y gofal. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn defnyddio holiaduron a thrafodaethau llafar â'r plant, y rhieni a'r staff er mwyn cael eu barn am y gwasanaeth. Gwelsom na chafodd sesiynau goruchwylio na chyfarfodydd arfarnu'r staff eu cynnal ers 2016. Roedd pob un o'r staff yn meddu ar gymwysterau perthnasol ac roedd ffeiliau unigol yn dangos nad oedd yr holl wiriadau perthnasol wedi cael eu cynnal cyn cyflogi'r staff.

Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni, yr ysgol leol a'r gymuned. Mae staff yr ysgol yn cael eu gwahodd i gyngerdd Nadolig blynyddol y gwasanaeth. Maent yn codi arian i'r gwasanaeth drwy werthu tocynnau raffl. Mae'r arweinwyr yn trefnu digwyddiadau codi arian ar gyfer elusennau yn rheolaidd. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn trefnu teithiau cerdded rheolaidd i'r parc lleol. Mae'r staff yn defnyddio llyfrau cartref yr ysgol i roi gwybod i'r rhieni am ddiwrnod eu plentyn. Mae'r staff hefyd yn anfon negeseuon testun at rieni'r plant sy'n bryderus pan gânt eu gadael yn y gwasanaeth. Dywedodd y rhieni wrthym fod y staff yn adnabod y plant yn dda, a'u bod yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd o ran digwyddiadau a gynhelir yn y gwasanaeth neu mewn perthynas â'u plentyn.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod yr arweinwyr yn sicrhau'r canlynol:

- bod adolygiad cyfredol o ansawdd y gofal yn cael ei gwblhau a bod copi yn cael ei anfon i AGC;
- bod yr holl dystysgrifau gwreiddiol a chopïau o dystysgrifau DBS y staff yn cael eu tynnu o ffeiliau personol;
- bod pob aelod o'r staff yn cyflawni'r hyfforddiant 'dyletswydd atal'
- bod dewis ehangach o adnoddau i hybu amrywiaeth ddiwylliannol a chyfleoedd cyfartal ar gael.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cynhaliodd arolygydd un ymweliad lle rhoddwyd rhybudd â'r gwasanaeth ar 07 Tachwedd 2019, a wnaeth bara am gyfanswm o bum awr. Fel rhan o'r arolygiad gwnaethom y canlynol:

- arsylwi ar y plant a'r gofal a roddwyd iddynt gan y staff;
- siarad â'r arweinwyr, y staff, y plant, y rhieni a'r gofalwyr;
- edrych ar sampl o ddogfennaeth, yn cynnwys cofrestrau'r staff a'r plant, ffeiliau'r staff, asesiadau risg a chofnodion damweiniau;
- archwilio'r safle.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Person Cofrestredig | Jacqueline Rice |
| Person â chyfrifoldeb | Danielle Rouse |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2 – 12 oed |
| Oriau agor | Dydd Mawrth a dydd Iau rhwng 9am a 3pm, dydd Mercher rhwng 9am a 12pm. Yn ystod y tymor yn unig. |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 16 Chwefror 2017 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 07 Tachwedd 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol'<br>ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth,<br>neu a all ei ddefnyddio. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/02/2020

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi